

Taflen Ffeithiau Llinell Faethu Cymru Maethu plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches

Rhagymadrodd

Mae plant neu bobl ifanc sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig i geisio statws ffoaduriaid heb eu rhieni neu ofalwyr fel arfer yn dod i ofal yr awdurdod lleol pan gânt eu nodi gyntaf. Fel plant sy'n derbyn gofal, yn aml fe gânt eu lleoli mewn gofal maeth neu ofal preswyl, oni bai y gellir canfod aelod teuluol neu warcheidwad addas i ofalu amdanynt. Mae gan y plant a'r bobl hyn fel arfer anghenion cyfreithiol, emosiynol, addysgol, o ran ffydd, cysylltiadau teuluol ac ymarferol cymhleth.

Beth yw plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches?

Ceisiodd tua 4,560 o blant ar eu pen eu hunain ac wedi'u gwahanu gael lloches yn y Deyrnas Unedig yn 2016/17. Mae nifer fechan o'r rhain yn byw yng Nghymru.

Maent yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth mewnfudo, yn ogystal ag i ddeddfwriaeth ynglŷn â phlant sy'n derbyn gofal.

Mae plentyn ar ei ben ei hun sy'n ceisio lloches (UASC) yn gyfreithiol yn blentyn sy'n derbyn gofal. O'r herwydd, mae ganddynt yr un hawliau cyfreithiol ag unrhyw blentyn arall sy'n derbyn gofal. Yn yr un modd, os caniateir iddynt aros yn y Deyrnas Unedig fel oedolion, mae ganddynt yr un hawliau cyfreithiol â'r holl bobl eraill sy'n gadael gofal, yn cynnwys darpariaethau 'Pan Fyddaf yn Barod'.

Pwy sy'n gwneud beth?

Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn gyfrifol am ddeddfwriaeth mewnfudo.

Mae'r Swyddfa Gartref yn gorchwyllo prosesau mewnfudo a lloches.

Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am ddeddfwriaeth, rheoleiddio a chodau ymarfer ynglŷn â'u haddysg, iechyd a bod yn blentyn sy'n derbyn gofal (neu'n berson sy'n gadael gofal).

Mae **pob awdurdod lleol** yn gyfrifol am les y plentyn ac am gynorthwyo'r plentyn drwy'r prosesau mewnfudo a lloches.

Mae ar y plentyn neu'r person ifanc angen oedolyn cyfrifol gydag ef/hi yn ystod ei gais am loches. Os ydynt wedi derbyn hyfforddiant a chymorth priodol, efallai mai'r gofalwr maeth yw hwn.

Rôl y gofalwr maeth yw darparu gofal a chefnogaeth i'r plentyn. Mae gan y gofalwr maeth y gorchwyl deublyg o helpu'r plentyn i addasu i fywyd yng Nghymru, gan hefyd sicrhau bod y plentyn yn barod am ddychweliad posibl yn y dyfodol i wlad ei

darddiad. Gall gofalwr maeth gwybod, sy'n deall y broses loches, fod â rôl eiriolaeth bwysig, ond nid eu rôl nhw yw gweithredu fel cynghorydd cyfreithiol. Bydd ar y person ifanc hefyd angen cael at wybodaeth a chyngor arbenigol ar fewnfudo.

Anghydfodau ynghylch oedran

Mae oed person ifanc yn aml yn destun anghydfod, yn enwedig o gofio mai ond ychydig sydd â dogfennau cyfreithiol. Mae hyn yn neilltuol o bwysig lle mae yna anghydfod ynglŷn â ph'un a yw rhywun yn hŷn neu'n iau nag 16 neu 18, gan fod hyn yn effeithio ar gyfrifoldeb yr awdurdod lleol dros y person hwnnw. Mae gan Gymru [Becyn Cymorth Amlasiantaethol Asesu Oed Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches Cymru Gyfan](#) i helpu i ddatrys y cyfryw anghydfodau.

Masnachu Pobl a Chamfanteisio ar Bobl

Efallai fod plant wedi'u masnachu i mewn i'r Deyrnas Unedig gydag oedolion, a bod eu statws fel plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (UASC) ond yn cael ei ddarganfod yn ddiweddarach. Efallai y byddant yn ymddangos fel plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (UASC) pan ddônt i mewn i'r Deyrnas Unedig, dim ond i ddiflannu pan fo'u masnachwr yn cysylltu â nhw. Efallai fod plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches (UASC) eraill wedi'u smyglo i mewn i'r Deyrnas Unedig ond wedyn yn cael eu gadael i ymdopi drostynt eu hunain. Mae masnachu pobl a chamfanteisio bob amser yn gamdriniaeth plant. Fel gofalwr maeth, fe fydd arnoch angen bod yn ymwybodol y gall plentyn ddal i fod mewn perygl oddi wrth eu masnachwr pobl hyd yn oed ar ôl iddo gael ei leoli gyda chi. Byddwch yn effro i arwyddion bod y plentyn yn aros am, neu'n derbyn cyfathrebiadau oddi wrth oedolyn nad yw'n perthyn iddo.

Os oes gennych bryderon am blentyn neu oedolyn ifanc, dilynwch yr holl ganllawiau amddiffyn plant a siaradwch â'ch swyddog arweiniol dynodedig dros amddiffyn plant yn eich asiantaeth faethu. Nodwch, os gwelwch yn dda, fod yna rwymedigaeth gyfreithiol ar weithwyr proffesiynol ym maes iechyd i ddiogelu plant sy'n dod atynt. I gael cymorth y tu allan i oriau gwaith, cysylltwch â'ch gwasanaethau cymdeithasol plant lleol neu'r heddlu, gan amlygu'n benodol eich pryder ynglŷn â masnachu plant.

I gael rhagor o gymorth, efallai y dymunwch gysylltu â gwasanaeth arbenigol Canolfan Gynghori ar Fasnachu Plant yr NSPCC am wybodaeth a chyngor. Ffoniwch 0808 800 5000 neu anfonwch [e-bost](#) am fwy o wybodaeth.

Cynghorion i Ofalwyr Maeth

Gwyliwch y [cyflwyniad fideo gan Jim Wade](#), i'ch helpu i feddwl am sut i baratoi ar gyfer y plentyn, a'r ffordd orau i gynorthwyo'r plentyn tra ei fod gyda chi.

Os gwyddoch iaith, diwylliant neu grefydd y plentyn, sicrhewch fod yna rai geiriau, gwrthrychau neu fwydydd cyfarwydd yn hollol weladwy pan fo'n cyrraedd.

Byddwch yn ymwybodol y gallant, yn dibynnu ar oed ac amgylchiadau'r plentyn, fod eisiau perthynas deuluol â chi, cartref dros dro neu lety diogel. Gall Cyngor Ffoaduriaid Cymru gynghori ar sut y gallwch helpu os oes ar blentyn eisiau cymorth i

ganfod teulu yn y Deyrnas Unedig, neu i gyfathrebu â theulu sy'n dal i fyw yng ngwlad ei darddiad.

Gall gwneud gweithgareddau beunyddiol gyda'ch gilydd fod yn ffordd gadarnhaol o fagu hyder a pherthynas. Wrth ichi wneud pethau gyda'ch gilydd, efallai y dysgwch sgiliau newydd, yn ogystal â throsglwyddo'ch sgiliau'ch hun.

Yn gychwynnol, fe fydd ar y rhan fwyaf angen cymorth ychwanegol gydag iechyd, dysgu Saesneg fel ail iaith, ac i ennill cymwysterau addysg ffurfiol.

Efallai y bydd plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yn adweithio'n annisgwyl ac yn gryf i'r hyn sydd i chi yn ddigwyddiadau beunyddiol. Gall y rhain fod yn gysylltiedig â thrawma, disgwyliadau wedi'u seilio ar brofiadau'r gorffennol, neu heb fod yn gyfarwydd â bywyd yng Nghymru. Yn neilltuol, byddwch yn ymwybodol efallai nad yw gwasanaethau iechyd a'r heddlu'n teimlo'n lleoedd diogel.

Rhagor o Adnoddau

Cynorthwyo Plant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches, Dangos y Ffordd mewn Maethu, Y Rhwydwaith Maethu

fosteringresources.co.uk/?cid=1&sid=3&pid=587&p=0

Diogelu a Hyrwyddo Lles Plant a Phobl Ifanc ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches: Canllawiau Ymarfer Cymru Gyfan, Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, 2011

childreninwales.org.uk/policy-document/safeguarding-and-promoting-the-welfare-of-unaccompanied-asylum-seeking-children-and-young-people-140613-w-2/

childreninwales.org.uk/our-work/safeguarding/wales-child-protection-procedures-review-group/

Canllawiau ar weithredu Adran 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

welshrefugeecouncil.org.uk/migration-information/legal-briefings/local-authority-services-for-separated-migrant-and-asylum

Canllawiau ar weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar gyfer pobl sy'n gadael gofal

welshrefugeecouncil.org.uk/migration-information/legal-briefings/migrant-care-leavers-duties-of-welsh-local-authorities-under

Canllawiau statudol Llywodraeth Cymru i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg: Pecyn cymorth ymarferol i helpu i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170323-statutory-guidance-to-help-prevent-children-and-young-people-from-missing-education-en.pdf

I gysylltu:

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

welshrefugeecouncil.org.uk 029 2048 9800

I gael gwybodaeth gyfreithiol
childrenslegalcentre.com/resources

Partneriaeth Ymfudo Strategol Cymru (WSMP)
wsmp.org.uk/

Sut y gall Y Rhwydwaith Maethu helpu

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn cynnig cyngor, gwybodaeth a chymorth. Mae ein harbenigedd a'n gwybodaeth yn wastad yn gyfoes ac ar gael drwy'n llinellau cymorth, cyhoeddiadau, hyfforddiant a gwasanaethau ymgynghori hanfodol i aelodau.

Cyngor

Llinell Faethu Cymru

Ffoniwch ni ar 0800 316 7664 o 9.30yb - 12.30yp rhwng dydd Llun a dydd Gwener. Os ydych yn ffonio y tu allan i'r amser hwn, gadewch neges, os gwelwch yn dda, ac fe wna rhywun eich ffonio yn ôl cyn gynted â phosibl.

Gallwch anfon e-bost atom neu ysgrifennu atom yn:

Fosterlinewales@fostering.net

Y Rhwydwaith Maethu

1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead

Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Cymorth ac Adnoddau

Mae ein gwefan yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth, tra bod ein cymuned ar-lein yn dod â gofalwyr maeth ynghyd am gefnogaeth a chyngor gan gymheiriaid. Gallwch fewngofnodi i rannu'ch profiad a chael cyngor gan ofalwyr maeth eraill. Mae ein cymuned ar-lein yn fan diogel a sicr i drafod materion gofal maeth.

thefosteringnetwork.org.uk

Hyfforddiant a Gwasanaeth Ymgynghori

Lle bynnag rydych yn eich gyrfa faethu, fel gofalwr maeth, gweithiwr cymdeithasol neu reolwr, mae gan Y Rhwydwaith Maethu ystod o hyfforddiant wedi'i gynllunio i ddiwallu'ch anghenion datblygu.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â'n rheolwr dysgu a datblygu, Sarah Mobedji, yn sarah.mobedji@fostering.net.

Ynglŷn â'r Rhwydwaith Maethu

Y Rhwydwaith Maethu yw prif elusen faethu'r Deyrnas Unedig, sy'n dod â phawb ynghyd sy'n gysylltiedig â bywydau plant wedi'u maethu i wneud gofal maeth y gorau un y gall fod.

Cysylltwch â

I ganfod mwy o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru, cysylltwch, os gwelwch yn dda, â:

Y Rhwydwaith Maethu
1, Pentir Caspian, Stryd Pierhead
Bae Caerdydd CF10 4DQ.

Ffôn: 029 2044 0940

E-bost: wales@fostering.net

Gwefan: thefosteringnetwork.org.uk



/thefosteringnetwork



@fosteringnet

© Y Rhwydwaith Maethu 2017